

LLAIS


Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care



Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym am
iechyd a gofal cymdeithasol yn Hirwaun

Llais Lleol - Mehefin 2025

Ym mis Mehefin 2025, fe wnaethon ni siarad â bron i 400 o bobl mewn mannau fel hybiau cymunedol, meddygfeydd teulu, ysbyty cymunedol ac ysgol arbennig



Beth sydd angen bod yn well

- **Cael apwyntiadau gyda meddyg teulu** – Mae llinellau ffôn bob amser yn brysur, mae amseroedd apwyntiadau yn gyfyngedig, mae apwyntiadau fel arfer i gyd wedi mynd ac mae pobl yn aros yn rhy hir.
- **Cyfathrebu** – Nid yw canlyniadau profion bob amser yn cael eu rhannu, gall negeseuon fod yn ddryslyd, ac nid oes gwybodaeth glir na chyson bob amser.
- **Preifatrwydd** – Nid yw ardaloedd derbynfa yn teimlo'n ddigon preifat.
- **Cymorth iechyd meddwl** – Nid oes digon o wasanaethau na dewisiadau triniaeth.
- **Amseroedd aros** – Mae pobl yn aros yn rhy hir am ofal ysbyty, asesiadau, gofal cartref, gofal seibiant,

Beth sydd angen bod yn well

presgripsiynau, a chael eu rhyddhau o'r ysbyty.

- **Trafnidiaeth** – Mae'n anodd cyrraedd apwyntiadau oherwydd bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac mae parcio yn yr ysbyty yn anodd. Mae llawer yn dibynnu ar deulu neu ffrindiau i gyrraedd ysbytai pell.
- **Deintyddion y GIG** – Anodd dod o hyd i un.
- **Hygyrchedd** – Nid yw rhai lleoedd yn hawdd i bobl hŷn neu'r rhai ag anableddau eu defnyddio.

Yr hyn a ddywedodd pobl



Gall pawb glywed beth rydych chi'n ei ddweud yn y dderbynfa

Dydw i ddim wedi gweld meddyg teulu ers dros 5 mlynedd

Yr hyn a ddywedodd pobl

Dydw i ddim yn gwneud
apwyntiadau oherwydd ei
fod yn rhy anodd



Roedd rhaid i mi aros
48 awr mewn cadair
cyn i wely gael ei
ddarganfod

Rhaid gofyn yn
barhaus a yw cais am
bresgripsiwn
ailadroddus wedi cael
ei weithredu

Gofynnwn ni am fwy o
gefnogaeth ac fe
wnaethon nhw roi 10
awr yr wythnos i ni, dim
digon

Beth sy'n mynd yn dda

- **Staff cyfeillgar** – Dywedodd y rhan fwyaf o bobl fod staff yn y gymuned a'r ysbytai yn garedig ac yn gymwynasgar.
- **Archwiliadau iechyd cymunedol** – Helpodd y rhain i ganfod problemau iechyd difrifol yn gynnar.



Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn rhannu'r adborth hwn gyda'r Bwrdd Iechyd a darparwyr gwasanaethau.

Byddwn yn dilyn eich problemau ac yn dweud wrth bobl pa newidiadau sydd wedi'u gwneud neu ba wybodaeth sydd wedi'i rhannu.

Llais Lleol Nesaf: Porth, Rhondda Cynon Taf — Mis Medi 2025.
Dewch i siarad â ni! Chwiliwch am ddyddiadau sydd ar ddod ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

Angen help i godi pryder?

Mae Llais yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol ac am ddim 🖱️ <https://www.llaiscymru.org/eiriolaeth-cwynion>

Dilynwch ni ar  i ddod o hyd i fwy o wybodaeth
@<https://www.facebook.com/CwmTafMorgannwgLlaisCym>